Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Hysbysiad hwylus

## Y Cyfansoddiad – Cymru yn y Deyrnas Unedig

Ebrill 2007

## Cyfansoddiad y DU

Brenhiniaeth gyfansoddiadol yw'r Deyrnas Unedig (DU) lle ceir Brenhines neu Frenin yn bennaeth ar y wladwriaeth ac ef neu hi fydd yn penodi Prif Weinidog a Gweinidogion sy'n ffurfio Llywodraeth y DU (cangen y "Weithrediaeth" o system wleidyddol y DU).

Mae'r DU hefyd yn ddemocratiaeth seneddol lle bydd y Prif Weinidog a'r Gweinidogion yn perthyn i'r Senedd (y "Ddeddfwrfa") naill ai fel Aelodau Seneddol etholedig yn Nhŷ'r Cyffredin neu fel Arglwyddi yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Dywedir yn aml mai "cyfansoddiad anysgrifenedig" sydd gan y DU. Er nad oes gan y DU yr un ddogfen y'i gelwir yn "Gyfansoddiad", fel sydd gan y rhan fwyaf o wledydd eraill, gellir dod o hyd i elfennau o'r gyfraith gyfansoddiadol ac arferion cyfansoddiadol mewn ffynonellau mor amrywiol â *Deddf Sefydlogi 1701*[1], y ddeddfwriaeth ddiweddar ar ddatganoli[2] a sylwadau gan arbenigwyr cyfansoddiadol fel Dicey[3] a Baghot[4].

Dywedir mai'r prif egwyddor gyfansoddiadol sy'n sail i system wleidyddol y DU yw **Goruchafiaeth Seneddol**. Mae hyn yn golygu y caiff y Senedd basio, diddymu, neu ddiwygio unrhyw un o ddeddfau'r DU. Bydd pob cyfraith yn cael Cydsyniad Brenhinol.

## Esblygiad y Deyrnas Unedig

Golygodd y profiadau gwahanol a gafodd Lloegr, yr Alban, Cymru ac Iwerddon o ran goresgyniad, mewnfudo a phatrymau poblogaeth fod y pedair gwlad yn cael eu hystyried yn endidau daearyddol a diwylliannol gwahanol erbyn 1066 (sef y flwyddyn y cafodd Lloegr ei goresgyn gan y Normaniaid). Fodd bynnag, wrth i Loegr a'r Alban ddatblygu'n deyrnasoedd unigol gydag un brenin, roedd Cymru'n cynnwys teyrnasoedd llai, er y ceisiai arweinwyr pwerus yn aml geisio ymestyn eu dylanwad a dod yn Frenin ar Gymru gyfan (fel y gwnaeth Hywel Dda a fu farw yn 950). Arweiniodd cyrchoedd y Normaniaid i Gymru (fel yn Iwerddon) at sefyllfa gymhleth: ar y naill law, roedd Arglwyddi Normanaidd pwerus y Mers yn ymestyn eu dylanwad i Gymru ac ar y llaw arall roedd Coron Lloegr yn ceisio

[1] Mae *Deddf Sefydlogi 1701,* a basiwyd mewn cyfnod o ofn cyffredinol o Babyddion, yn datgan mai dim ond etifeddion Protestannaidd y Dywysoges Sophia, sef wyres Brenin Iago I o Loegr, all fod yn Frenin neu'n Frenhines Prydain.
[2] Fel *Deddf yr Alban 1998* a *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*.
[3] A.V. Dicey, *The Law of the Constitution*, 1885
[4] Walter Baghot, *The English Constitution*, 1867.

ymestyn ei dylanwad ymysg teyrnasoedd cwerylgar y Cymry.

Erbyn teyrnasiad Edward I o Loegr, roedd tywysogion Gwynedd (Llywelyn I a fu a farw yn 1240 a'i ŵyr, Llywelyn II) wedi ennill digon o dir a goruchafiaeth dros dywysogion eraill Cymru fel bod iddynt alw'u hunain yn Dywysogion Cymru. Roedd Tywysogaeth Cymru hefyd yn bodoli fel endid tiriogaethol, cyfreithiol a gweinyddol, er nad oedd yn cynnwys holl dir Cymru. Pan alwyd Llywelyn II yn fradwr gan Edward I, a'i ladd yn 1282, cymerodd Goron Lloegr deitl "Tywysog Cymru".

Yn dilyn marwolaeth Llywelyn II, cafodd Cymru ei llywodraethu gan Frenin Lloegr ond ni ddaeth yn rhan o Frenhiniaeth Lloegr. Cafodd y broses o uno'n gyfreithiol â Lloegr ei chwblhau o dan y Tuduriaid gyda "Deddfau Uno" 1536 a 1543. Rhannodd y Ddeddf Uno gyntaf y Mers yn saith sir gan ddod â'r gwahaniaeth rhwng y Dywysogaeth a'r Mers ar dir Cymru i ben. O hynny ymlaen, cyfraith Lloegr oedd unig gyfraith Cymru ac, i weinyddu'r gyfraith honno, penodwyd ustusiaid heddwch ym mhob sir. Cynrychiolwyd Cymru yn y Senedd gan 26 o aelodau. Sefydlodd Deddf 1543 Lys y Sesiwn Fawr, sef system Gymreig o lysoedd wedi'i seilio ar bedair cylchdaith o dair sir yr un.

Felly, Cymru oedd y diriogaeth gyntaf o'r hyn a fyddai'n dod yn Deyrnas Unedig i gael ei huno â Lloegr. Yn hwyrach, roedd *Deddf Cymru a Berwick 1746* yn datgan y byddai'r gair "Lloegr" mewn statud hefyd yn golygu Cymru. Fodd bynnag, cafodd y Ddeddf hon ei disodli gan *Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1967*.[5] Y diffiniad presennol o dir Cymru yn ôl y gyfraith yw'r ardal sy'n cynnwys y siroedd a gafodd eu creu gan adran 20 o *Ddeddf Llywodraeth Leol 1972*.[6]

Roedd profiad yr Alban ac Iwerddon o ddod yn rhan o'r Deyrnas Unedig yn wahanol i brofiad Cymru, ac yn wahanol i'w gilydd hefyd. Unwyd dwy goron yr Alban a Lloegr yn 1601 ond cadwyd dwy senedd ar wahân ac ni fu uno tan ganrif yn ddiweddarach, yn 1707. Hyd yn oed ar ôl yr uno, cadwodd yr Alban ei chyfundrefnau cyfreithiol a gweinyddol ei hun, er mai yn Senedd San Steffan y byddai cyfraith yn cael ei gwneud.

Roedd Iwerddon wedi bod o dan awdurdod coron Lloegr ers y Canol Oesoedd, ond cafodd yr awdurdod hwnnw ei gwestiynu cyn ac ar ôl i'r Goron/gwladwriaeth ddod yn Brotestannaidd oherwydd i Iwerddon aros yn wlad Babyddol ar y cyfan. Roedd Senedd wedi bod yn Iwerddon ers y bedwaredd ganrif ar ddeg ond cafodd ei diddymu gan *Ddeddf Uno 1801*.

Erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, felly, roedd y Deyrnas Unedig wedi dod i fodolaeth, ac yn cynnwys Lloegr, yr Alban, Iwerddon a Chymru. Fodd bynnag, roedd *y modd* y daeth Cymru, yr Alban ac Iwerddon yn rhan o'r undeb yn dra gwahanol, o ran amseru ac amgylchiadau. Mae hyn yn helpu i esbonio'r ffordd y byddai'r Deyrnas Unedig yn newid ymhen amser.

Am dros ganrif roedd pobl wedi bod yn galw am ymreolaeth ac annibyniaeth i Iwerddon,

---

[5] Swyddfa Cofnodion Cenedlaethol, yr Archif Gendlaethol o Ddata Digidol, *Y Swyddfa Gymreig*.
http://www.ndad.nationalarchives.gov.uk/AH/6/detail.html#n1

[6] *Deddf Dehongli 1978* (Pennod 30). Ad-drefnwyd siroedd 1972 gan *Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994* ond ni newidiodd tiriogaeth Cymru.

gan arwain yn aml at drais ar y ddwy ochr. Sefydlodd *Deddf Llywodraeth Iwerddon 1920* Wladwriaeth Rydd Iwerddon fel dominiwn o'r Ymerodraeth Brydeinig. Mewn amser, byddai hyn yn arwain at sefydlu Gweriniaeth Iwerddon yn 1949, gan ddod â'r cysylltiadau â Choron Prydain i ben a rhoi'r gorau i fod yn rhan o'r Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, ffurfiodd chwe sir y Gogledd, a oedd â phoblogaeth Brotestannaidd ar y cyfan, Ranbarth Gogledd Iwerddon, a gadwodd Senedd ddatganoledig o fewn y Deyrnas Unedig tan 1972 pan sefydlwyd rheolaeth uniongyrchol o San Steffan.

## Swyddfeydd Tiriogaethol

Roedd y gydnabyddiaeth fod y DU yn wladwriaeth o wahanol genhedloedd yn cael ei hadlewyrchu wrth greu swyddfeydd tiriogaethol o ysgrifenyddion gwladol i'r Alban, Cymru ac Iwerddon, a hynny ar gyfnodau gwahanol.

Yn dilyn *Deddf Uno 1707* rhwng Lloegr a'r Alban, roedd Ysgrifennydd Gwladol yr Alban yn rhan o'r Llywodraeth ond cafwyd gwared ar y swydd yn dilyn gwrthryfel y Jacobiaid yn 1745. Fodd bynnag, pasiwyd *Deddf Ysgrifennydd yr Alban* ym 1885, a oedd yn ffurfioli swydd Ysgrifennydd yr Alban ac yn creu Swyddfa'r Alban. Yn hwyrach, dyrchafwyd y swydd i fod yn Ysgrifennydd Gwladol.[7]

Yng Nghymru, er bod gan rai adrannau Whitehall swyddfeydd yng Nghymru ers dechrau'r ugeinfed ganif, fel Adran Gymreig y Bwrdd Addysg (1907), ni chafodd y Swyddfa Gymreig na swydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru eu sefydlu tan 1964, a hynny gan Lywodraeth Lafur Harold Wilson. Deiliad cyntaf y swydd oedd Jim Griffiths, yr Aelod Seneddol dros Lanelli ar y pryd.

Cafodd swydd Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon a Swyddfa Gogledd Iwerddon eu creu ym 1972 pan gyflwynwyd Reolaeth Uniongyrchol.[8]

## Datganoli

Ar ddiwedd y 1990au, cafodd rhai pwerau eu datganoli o Whitehall a San Steffan i'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Crëwyd sefydliadau democrataidd newydd i wneud a gweithredu penderfyniadau ar faterion yr ymdriniwyd â hwy cyn hynny gan y swyddfeydd tiriogaethol a'r Ysgrifenyddion Gwladol.

Mae datganoli yn y DU yn anghymesur. Yn wahanol i system ffederal, lle bydd taleithiau neu ranbarthau'n rhannu sofraniaeth â'r canol a lle bydd gan y taleithiau bwerau cymharol debyg i'w gilydd, mae trefniadau datganoli ar gyfer gwahanol rannau o'r DU yn wahanol iawn i'w gilydd.

---

[7] Swyddfa'r Alban, *History of Scottish Representation in Government*, ar y we **http://www.scotlandoffice.gov.uk/history/scotland-office.html**
[8] Swyddfa Gogledd Iwerddon **http://www.nio.gov.uk/index/about-the-nio.htm**

Sefydlwyd ***Cynulliad Cenedlaethol Cymru*** gan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*. Cafodd y Ddeddf hon ei disodli gan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.* Mae'r Ddeddf yn gwneud datganoli yng Nghymru yn debycach i'r Alban, er enghraifft, gyda Gweinidogion yn cael eu penodi gan y Frenhines. Hefyd, ers mis Mai 2007, rhoddodd y pŵer i'r Cynulliad basio "Mesurau Cynulliad" mewn materion y mae ganddo gymhwysedd deddfwriaethol ynddynt.[9]

Mae gan ***yr Alban*** Senedd â phwerau deddfwriaethol llawn. Mae ganddi hefyd yr hawl i amrywio cyfradd treth incwm. Y rhagdybiaeth yn *Neddf yr Alban 1998* yw bod holl swyddogaethau polisi domestig wedi'u datganoli. Mae *Deddf yr Alban 1998* yn datgan y materion sydd wedi'u cadw gan Senedd y DU yn Llundain, sef yn fwyaf amlwg, polisi tramor, polisi amddiffyn a nawdd cymdeithasol.

Sefydlwyd ***Cynulliad Gogledd Iwerddon*** o ganlyniad i'r broses heddwch a oedd yn rhan o Gytundeb Gwener y Groglith 1998. Mae ganddo rai pwerau deddfwriaethol sylfaenol ond nid oes ganddo bwerau codi trethi. Mae ganddo weithrediaeth sy'n rhannu grym sy'n golygu ei bod yn rhaid i bleidiau a gaiff eu hethol o'r naill ochr a'r llall o'r rhaniad crefyddol/gwleidyddol weithio gyda'i gilydd. Gohiriwyd datganoli o fis Hydref 2002 ond cafodd ei ailsefydlu ar 8 Mai 2007, yn dilyn cytundeb i greu gweithrediaeth rhwng y Blaid Unoliaethol Ddemocrataidd a Sinn Fein.[10]

Gan mai statud gan Senedd San Steffan sydd wedi sefydlu Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon, gall y Senedd honno hefyd, ar bapur, eu diddymu. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o sylwebyddion yn credu bod hyn yn annhebygol heb gymeradwyaeth refferenda, a gafodd eu defnyddio i'w creu yn wreiddiol.

Mae San Steffan yn parhau i ddeddfu ar gyfer y DU gyfan yn ogystal â deddfu ar rai materion ar gyfer ***Lloegr*** yn unig. Mae hyn wedi arwain rhai i ofyn a ddylai fod gan Aelodau Seneddol nad ydynt yn cynrychioli etholaeth yn Lloegr yr hawl i bleidleisio ar faterion sydd ond yn effeithio ar Loegr. Gelwir y benbleth hon yn Gwestiwn Gorllewin Lothian.

---

[9] Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, 06/38., 2006. **http://assembly/presidingoffic/mrs/briefings/2006/mrs061893%20gowa%202006.doc**

[10] Newyddion y BBC, *How United is the UK?* **http://news.bbc.co.uk/1/hi/programmes/bbc_parliament/2562527.stm**

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Alys Thomas, (Alys.Thomas@Wales.gsi.Gov.UK) Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

I gael rhagor o wybodaeth am y materion isod, cliciwch ddwywaith ar y lincs isod.

- Vernon Bognador, The British Constitution in the Twenieth Century, Oxford University Press, 2004.
- John Davies, *The History of Wales*, ail argraffiad, Penguin, 2007.
- K. O. Morgan, *Rebirth of a Nation: Wales 1880-1980*, Oxford Paperbacks, 1981.
- Uned Gyfansoddiadol Coleg Prifysgol Llundain: http://www.ucl.ac.uk/constitution-unit/
- Gwefan Ddatganoli'r ESRC: http://www.devolution.ac.uk/
- Rhestr lawn o'n hysbysiadau hwylus.



**Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu anfonwch e-bost at MembersLibrary@cymru.gsi.gov.uk**